

Llais Gwirfoddol Cylchlythyr

Rhifyn 2 2019
www.flvc.org.uk



VolFest 2019 .. Dathlu Gwirfoddoli mewn steil gweler tudalennau 10 ac 11

*Cefnogi, Hyrwyddo a
Datblygu Gwaith
Gwirfoddol a
Chymunedol*



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**
Third Sector
Support **Wales**

FLVC
Flintshire Local Voluntary Council
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint


- 2 Yn y Rhifyn Hwn
- 3 Newyddion FLVC
- 5 Newyddion Cymunedol
- 6 Ymgysylltu a Dylanwadu
- 7 Digwyddiadau a Hyfforddiant
- 8 Ariannau
- 10 Gwirfoddoli
- 12 Llywodraethu Da

*Gallwch fod
yn rhan o'r
cylchlythyr hefyd!*

Os hoffech gyfrannu erthygl i rifyn nesaf Llais Gwirfoddol yna ebostiwch eich erthygl atom:
Swyddog Cyfathrebu, Corlan,
Parc Business yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XP
info@flvc.org.uk
01352 744 000

Fuasech chi'n fodlon derby nein newyddlen Llais Gwirfoddol ar e-bost ?

Bydd copiau wedi eu hargraffu ar gael bob amser ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnig copiau called. Fodd bynnag, os hoffech chi ein helpu i leihau costau a gofalu am yr amgylchedd ac os ydych yn fodlon bwrw golwg ar y newyddlen ar-lein, gofynnwn yn garedig ichi gysylltu info@flvc.org.uk



Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)

Ein Gweledigaeth:

Gweledigaeth FLVC yw sector gwirfoddol a chymunedol cryf, cynaliadwy ac effeithiol, sy'n cynnwys pobl ac yn gwasanaethu pobl Sir y Fflint.

Ein Cenhadaeth:

Cenhadaeth FLVC yw cefnogi, datblygu a hyrwyddo gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint a chryfhau galu gwrpiau gwirfoddol a chymunedol I gyfrannu at ansawdd bywyd pobl a chymunedau Sir y Fflint.

Croeso i Lais Gwirfoddol

Diolch i chi am gymryd amser i ddysgu mwy am eich cyngor gwirfoddol lleol. Rydym ni'n rhan o rwydwaith cenedlaethol o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a'n rôl ni ydy hyrwyddo, cefnogi a datblygu'r gwaith amhrisiadwy y mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn ei gyfrannu i fywydau ein teuluoedd, ein cymdogion a ni ein hunain.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Sut allwn ni eich cefnogi chi orau?

Rhowch wybod inni sut allwn ni eich cefnogi chi orau. Mae ein staff wedi bod o gwmpas yn cynnal ymweliadau 'Gwrandao a Dysgu' gyda'n haelodau. Os hoffech chi i aelod o'r tîm FLVC ymweld â chi i ddysgu mwy am eich gwaith ac i weld sut allwn ni eich cefnogi chi orau, yna anfonwch e-bost at info@flvc.org.uk gyda manylion cyswllt eich sefydliad.



Rydym ni'n gweithio gyda WCVA ar Gynllun Busnes Cefnogi Trydydd Sector Cymru o 2020 ymlaen, a bydd yr hyn bydd ein haelodau a phawb sy'n gysylltiedig â gwaith gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint yn ei ddysgu yn llunio ein gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Dewch i'n gweld ni, neu efallai gallwn ni ddod i'ch gweld chi?

Has your organisation received support from FLVC in the past? Take our short survey <https://www.surveymonkey.co.uk/r/VZMFD5X> and tell us what you think of our work.

Ydi'ch mudiad chi wedi cael cefnogaeth gan FLVC yn y gorffennol? Cwblhewch ein harolwg byr <https://www.surveymonkey.co.uk/r/6Z2CFLF> i roi gwybod eich barn am ein gwaith.

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a Seremoni Gwobrwyo

Rhowch nodyn yn eich dyddiadur ar gyfer **nos Iau 12fed o Fedi - o 5:15yp tan 8:30yh** (gyda bwffe ysgafn am 7yh). Eleni, mae hi'n bleser gennym ni gynnwys Gwobrau Cymunedau Taclusaf Sir y Fflint yn ein digwyddiad Cyfarfod Blynnyddol. Hefyd, cofiwch eich bod chi'n gallu enwebu unrhyw Berson Ifanc (rhwng 14-25 oed) i dderbyn cydnabyddiaeth fel rhan o'n Gwobrau Tom Jones. Caiff y Gwobrau (sydd wedi'u henwi ar ôl y diwedd ar Tom Jones OBE oedd yn ymddiriedolwr FLVC) eu cyflwyno i Bobl Ifanc sy'n gwneud cyfraniad arbennig i'w cymuned trwy waith gwirfoddol. Anfonwch e-bost at info@flvc.org.uk am fwy o wybodaeth.



Ein Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2018

Chief Officer
01352 744028
ann.woods@flvc.org.uk



	Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddoli	Rhwydwaith Lles N.E.W.	Rhwydwaith Ymddiriedolwyr	Digwyddiad / Rhwydwaith Blynnyddol
Medi		Medi'r 12fed 2019 9.30yb-12.00yp Plas Pentwyn, Wrecsam	Medi'r 19fed 2019 10.30yb-3.30yp Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a gwybodaeth am gyllid a FLVC Lleoliad i'w Gadarnhau	Medi'r 12fed 2019 CYFARFOD BLYNYDDOL FLVC / SEREMONI WOBRWYO 5.15yp - 8.30yh Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug
Hydref	Hydref y 14eg 2019 9.30yb-12.00yp Corlan, Parc Busnes yr Wyddgrug, Yr Wyddgrug		Hydref y 10fed 2019 9.03yb-12.00yp Lleoliad: Canolfan Daniel Owen Hydref 21ain 2019 10.30yb-4.00yp Llawfeddygaeth Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Corlan, Parc Business yr Wyddgrug	
Tachwedd		Tachwedd y 14eg 2019 9.30yb-12.00yp Ysgol Fusnes Cambria Llaneurgain		
Rhagfyr				
	I archebu lle, cysylltwch a info@flvc.org.uk neu 01352 744000	I archebu lle, cysylltwch a info@flvc.org.uk neu 01352 744000	I archebu lle, cysylltwch a info@flvc.org.uk neu 01352 744000	I archebu lle, cysylltwch a info@flvc.org.uk neu 01352 744000

Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr

Mae'r Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr yn cynnig cyfle i fudiadau trydydd sector gwrdd i drafod materion cyfredol a chynorthwyo a chefnogi ei gilydd. Hefyd mae'n gyfle i'r mudiadau rannu ymarfer da a gwybodaeth ynghyd â hyrwyddo Cyfleoedd Gwirfoddoli a digwyddiadau ledled Sir y Fflint.

Rhwydwaith Ymddiriedolwyr

Mae cyfarfodydd Rhwydwaith Ymddiriedolwyr FLVC yn gyfle i chi glywed safbwynt arbenigwyr ynghylch ystod o bynciau perthnasol ac i drafod trafferthion cyfredol i fudiadau gyda'ch cyfoedion a chydwethwyr.

Rhwydwaith Llesiant Gogledd Ddwyrain Cymru

Mae'r Rhwydwaith Gogledd Ddwyrain Cymru yn gyfle i gwrdd â staff a gwirfoddolwyr o fudiadau a grwpiau trydydd sector sy'n gweithio yn Sir y Fflint a Wrecsam sy'n ymddiddori mewn iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Mae'n gyfle i fynd ati i gydweithio yn ogystal â chlywed am a rhannu mentrau newydd. Mae croeso hefyd i bartneriaid statudol ymaelodi â'r Rhwydwaith yn rhad ac am ddim.

Mesur a Rheoli eich Gwerth Cymdeithasol

Mae FLVC wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiect partneriaeth gyda'r holl Gynghorau Gwirfoddol Sirol yng ngogledd Cymru, ac rydym ni newydd ddechrau ar ein trydedd flwyddyn, sef ein blwyddyn olaf. Fel rhan o'r prosiect mae FLVC wedi datblygu eu dealltwriaeth o werth cymdeithasol, ond prif ran y prosiect ydy cefnogi sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio yn Sir y Fflint i fesur a rheoli eu gwerth cymdeithasol.

Y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn Sir y Fflint ydy DangerPoint, Gofal a Thrwsio Gogledd-ddwyrain Cymru, KIM Inspire a Menter Iaith. Mae FLVC a Mantell Gwynedd (y prif sefydliad) wedi ymgymryd â grwpiau ffocws ym mhob sefydliad, gan gynnwys mynd i ysgol gyda DangerPoint ac i Garchar y Berwyn gyda Menter Iaith. Mae'r grwpiau ffocws hyn wedi helpu i adnabod y deilliannau mae pobl yn eu cyflawni trwy'r prosiectau - sydd o bosibl yn cynnwys deilliannau negyddol anfwriadol - a'u pwysigrwydd.

Mae DangerPoint yn ganolfan ddiogelwch yn Nhalacre, sy'n ceisio addysgu plant a phobl ifanc am ymwybyddiaeth o ddiogelwch er mwyn lleihau digwyddiadau o farwolaethau ac anafiadau damweiniol, a hyrwyddo iechyd, lles a diogelwch cymunedol. Prif waith DangerPoint ydy taith ryngweithiol 3 awr o amgylch y ganolfan ddiogelwch i ysgolion cynradd. Mae'r daith wedi'i chynllunio i addysgu plant am wneud penderfyniadau cadarnhaol mewn bywyd a chodi ymwybyddiaeth o beryglon iechyd a diogelwch. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn cwis cyn ac ar ôl y daith i weld pa wybodaeth sydd ganddyn nhw yn barod ac i weld beth wnaethon nhw ei ddysgu yn ystod eu hymweliad. Mae rhai ysgolion yn cymryd rhan

mewn ymweliad dilynol (lle mae DangerPoint yn mynd i'r ysgol) ychydig fisoedd yn ddiweddarach i weld faint o'r wybodaeth maen nhw'n ei chofio. Aeth FLVC a Mantell Gwynedd



gyda DangerPoint ar un o'r ymweliadau hyn lle, yn ogystal â'r cwis, bu'r plant yn dylunio poster ar ddiogelwch yn ogystal â chwblhau holiadur bach am eu hymweliad i DangerPoint. Yna, bu inni chwarae'r "Gêm Gwerth" gyda'r plant lle bu inni ofyn i'r plant restru'r deilliannau oeddan nhw'n meddwl oeddan nhw wedi'u cyflawni yn ystod eu hymweliad yn nhrefn eu pwysigrwydd. Yna, bu inni ofyn iddyn nhw ddewis 4 peth cyffyrddadwy allan o 10 oedd yn cynnwys tocyn gwyliau, tocynnau cyngerdd, tocynnau sinema a thocyn tanysgrifiad teledu, a'u rhestru nhw yn ôl eu pwysigrwydd. Yn olaf, bu inni ofyn iddyn nhw benderfynu a oedd unrhyw rai o'r pethau cyffyrddadwy hyn yn bwysicach nag unrhyw un o'r deilliannau: mae hyn yn helpu i gysylltu gwerth ariannol i 'deimladau'. Roeddem ni'n falch iawn bod yr holl blant wedi dweud nad oedd y pethau cyffyrddadwy hyn yn bwysicach na'r deilliannau o DangerPoint.

Rydym ni bellach yn gweithio ar yr Adroddiad Gwerth

Cymdeithasol gyda DangerPoint lle rydym ni'n ychwanegu gwerthoedd ariannol i'r deilliannau er mwyn penderfynu ar eu Helw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, ac fe all DangerPoint ddefnyddio'r wybodaeth hon i newid a gwella.

Beth ydy Gwerth Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)?

Mae'n debyg eich bod chi wedi clywed neu weld rhywbeth fel "Am bob £1 gaiff ei fuddsoddi, mae'r prosiect wedi cynhyrchu £3.20 mewn gwerth cymdeithasol." Ond beth mae hyn yn ei olygu? Mae gwerth cymdeithasol yn ffordd o gyfrifo'r pwysigrwydd mae pobl yn ei roi ar newidiadau maen nhw'n eu profi yn eu bywydau, er enghraifft, magu hyder, gwella eu hiechyd meddwl, teimlo'n ddiogel gartref, neu hyd yn oed newidiadau mewn incwm. Mae cyfrif gwerth cymdeithasol yn stori am y newidiadau mae pobl yn eu profi, gall fod yn newidiadau mewn lles, incwm, arbedion ariannol neu ailddyraniad, o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau unrhyw sefydliad. Mae'r pethau hyn yn bwysig inni ond ni chaiff rhai eu mesur gan amlaf yn yr un modd â gwerth ariannol: sut ydych chi'n rhoi cost ar deimladau? Gwerth rhifol sy'n gysylltiedig â newid ydy gwerth cymdeithasol; gwerth ariannol fel yr un uchod ydy Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI).

Mae mesur gwerth cymdeithasol yn golygu casglu data ansoddol ac yna data meintiol gyda'r bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw i ddarganfod pa ddeilliannau maen nhw wedi'u profi, a phwysigrwydd perthnasol a gwerth y deilliannau hynny. Gall hyn fod yn grwpiau ffocws, sgysiau un-i-un neu sgysiau dros y ffôn gyda rhai pobl; ac yn arolygon neu holiaduron y mae modd eu defnyddio gyda llawer.

Mae gan werth cymdeithasol y potensial i'n helpu ni i



newid sut ydym ni'n deall y bobl rydym ni'n gweithio gyda nhw a gwneud penderfyniadau am le i fuddsoddi adnoddau a pha weithgareddau i'w gwneud. Rydym ni'n defnyddio data sydd wedi'i gasglu er mwyn

deall, newid a gwella, ac felly cyflawni'r effaith fwyaf gyda'r adnoddau sydd ar gael. Gall ein helpu ni i sylweddoli ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ddim yn gweithio, a beth mae modd inni ei newid fel bod modd inni fwyafu'r gwerth rydym ni'n ei greu, sefyll allan o'r dorf ac o bosibl bod â mantais gystadleuol.

Dysgwch fwy am werth cymdeithasol drwy fynd ar wefan Gwerth Cymdeithasol y DU:

<http://www.socialvalueuk.org>

LLWYFAN Y BOBL

Ein Dyfodol yn Nghymru

Dyma le i bobl Cymru rannu eu straeon, ystadegau ac awgrymiadau. Bydd cyrff cyhoeddus a phobl eraill yn gallu gweld y setiau data a hidlo'r straeon fesul lleoliad, thema a nod lles. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n gallu creu archif o brofiadau byw a banc o syniadau cenedlaethol, fydd yn ein helpu ni i ddeall yn well sut mae cymunedau yn meddwl am, profi ac amlygu cyfleoedd a heriau y mae angen i swyddfa'r Comisiynydd a chyrrff cyhoeddus ar draws Cymru wrando arnyn nhw. Hyd yma, rydym ni wedi cynnal cyfres o weithdai gyda sefydliadau ar draws Cymru i gyd-gynhyrchu'r dull ac rydym ni'n awyddus bod sefydliadau eraill yn cymryd rhan drwy ddefnyddio'r llwyfan hwn.



Sut alla' i fod yn rhan ohono?

- Casglwch straeon - wyneb-i-wyneb neu ar-lein drwy rannu dolen gyswllt i'r llwyfan hwn.
- Rhannwch eich stori ac anogwch eraill i wneud yr un peth.
- Defnyddiwch y straeon a'r data gaiff eu casglu er mwyn llunio eich gwaith
- Cymryd rhan mewn neu gynnal gweithdai sy'n seiliedig ar yr hyn gaiff ei ddarganfod.

Am fwy o wybodaeth neu er mwyn cofrestru eich diddordeb, anfonwch e-bost at

contactus@futuregenerations.wales NEU

cwblhewch a chyflwynwch

FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB

Pum Ffordd o Weithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn defnyddio'r pum ffordd o weithio:

- Hir dymor - pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hir dymor hefyd.
- Integreiddio - Ystyried sut gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- Cynnwys - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.
- Cydweithio - Cydweithio gydag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles.
- Atal - Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Mae cefnogi a herio sut mae cyrff cyhoeddus yn cynnwys pobl yn eu prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau yn flaenoriaeth fawr yn swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Mae cefnogi a herio sut mae cyrff cyhoeddus yn cynnwys pobl yn eu prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau yn flaenoriaeth fawr yn swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni'r pum ffordd o weithio a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau, rydym ni wedi creu 'Llwyfan y Bobl' (cyflenwir gan SenseMaker®). Mae'r llwyfan hwn i hel straeon yn rhoi cyfle i bobl ar draws Cymru rannu eu profiadau, meddyliau, heriau a datrysiadau ar chwe maes blaenoriaeth y Comisiynydd:

- Sgiliau
- Ffyrdd gwell o gadw pobl yn iach
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Cynllunio
- Tai
- Cludiant

<https://futuregenerations.wales/the-peoples-platform/>

<https://loncollector.sensemaker-suite.com/Collector/collector.>

Mae Home-Start Flintshire

yn chwilio am wirfoddolwyr i ymuno gyda #timtanjerin

O fis Ebrill hyd at fis Mehefin eleni, bu iddyn nhw dderbyn 40 o gyfeiriadau gan deuluoedd mewn angen ledled ein sir. Maen nhw felly'n chwilio am wirfoddolwyr i'w cynorthwyo i helpu teuluoedd. Byddan nhw'n cynnal eu sesiynau paratoi i wirfoddolwyr o Fedi'r 9fed gyda chyfle i alw heibio a chwrdd â'r tîm a dysgu mwy am wirfoddoli gyda Home-Start Sir y Fflint, yr wythnos flaenorol.

Cwrs Paratoi i Wirfoddolwyr, **Medi - Hydref 2019**
Bydd y sesiynau yn y Gorlan, Uned 3, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug CH7 1XP
Y gobaith ydy cynnal cwrs anffurfiol, hamddenol a braf. Gallwch gymryd rhan yn y cwrs heb orfod cwblhau unrhyw waith ysgrifenedig. Bydd y cwrs yn drafodaethau anffurfiol gan fwyaf. Bydd yn rhaid ichi gwblhau pob un o'r 12 sesiwn. Ar gyfer y rheiny sy'n dymuno ennill cymhwyster, mae cyfle i wirfoddolwyr ennill 3 credyd Lefel 2 (Rhwydwaith y Coleg Agored).



Dyma ychydig o'r pynciau byddwn yn ymdrin â nhw :

- Sut mae Home-Start yn Helpu Teuluoedd
- Mynd Rhagddi fel Ymwelydd Cartref
- Manteisio ar Gefnogaeth, Ymroddiad a ffiniau, Diogelwch Gwirfoddolwyr
- Gwerthoedd ac Agweddau, Bywyd Teuluol a Chefnogi Rhieni
- Rhieni a'u Plant
- Gwrando ar Deuluoedd a Chyfrinachedd
- Diogelu a Gwarchod Plant.

Dim ond lle i hyn a hyn sydd ar y cwrs – cysylltwch gyda'r swyddfa i gadw lle ar:

01352 744060

admin@home-startflintshire.org.uk

i fynd ati i gynorthwyo Home-Start helpu teuluoedd ledled Sir y Fflint.

3ydd CYNHADLEDD YNGHYLCH LLYWODRAETHU, CYFRAITH A CHYLLID I ELUSENNAU CYMRU GYFAN

Lle : Canolfan yr Holl Genhedloedd, Rhodfa Sachville, **Caerdydd** CF14 3NY (lleoliad)

pryd : Dydd Mawrth, Medi'r 24ain 2019
o 09:15yb - 16:30yp

Cost : Dirprwy 1af £75.00 (yn cynnwys TAW).
Dirprwyon Ychwanegol £50.00 (yn cynnwys TAW)

Cysylltu : Michele Jellings ar **029 2038 6537**

Mae'n bleser gennym ni gyhoeddi y bydd Tîm Elusen Geldards, ar y cyd â Baldwins a Brewin Dolphin, yn cynnal eu 3ydd Cynhadledd ynghylch Llywodraethu, Cyfraith a Chyllid i Elusennau Cymru gyfan ar ddydd Mawrth, Medi'r 24ain 2019 yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd.

Mae ein Cynhadledd 2019, "Trefnu Rhodd" yn arbennig ar gyfer Ymddiriedolwyr Elusennau, Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid a bydd amrywiaeth o sesiynau gwybodaeth a bydd nifer o arbenigwyr wrthlaw yn cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol er mwyn gofalu eich bod yn cadw at y trywydd iawn.

Cadw Lle Nawr drwy Eventbrite

RHWYDWAITH GWYBODAETH YMDIRIEDOLWYR SIR Y FFLINT

DEALL DIOGELWCH AR-LEIN

Seminar Troseddau Ar-lein

Dan arweiniad Cwnstabl Dave Allmark

Yng Nghanolfan Daniel Owen

Ar Ddydd Iau Hydref 10fed o 9:30 yb – 12 yp

Am fwy o wybodaeth: cysylltwch gyda:

John Gray Ffôn: 01352 744005

E-bost: john.gray@flvc.org.uk

GWOBRAU EFFAITH GSK 2020

Mae pob elusen yn ei chael hi'n anodd cwrdd â'u costau craidd ac mae



Gwobrau EFFAITH GSK wedi'u cynllunio i ddarparu arian craidd sydd wirioneddol ei angen, hyfforddiant a chydabyddiaeth genedlaethol i elusennau bach a chanolig sy'n gweithio ar wella iechyd a lles pobl y DU. Caiff hyd at 20 o wobrau eu gwobrwyo sy'n amrywio o £3,000 hyd at £40,000. Fe allwch chi wneud cais os ydy eich sefydliad yn o leiaf tair blwydd oed, yn elusen gofrestredig, yn gweithio mewn maes sy'n gysylltiedig ag iechyd yn y DU a gydag incwm rhwng £80,000 a £2.5 miliwn. Bwriad y gwobrau ydy cydnabod llwyddiant a chyrhaeddiad gwaith presennol felly does dim angen ichi gyflwyno prosiect newydd.

Bydd y sefydliadau buddugol yn cael gwneud ffilm, yn derbyn cefnogaeth gyda'r wasg a chyhoeddusrwydd ac yn derbyn deunydd hyrwyddo. Byddan nhw hefyd yn cael cynnig hyfforddiant a datblygiad am ddim gwerth £9,500. Mae sawl enillydd blaenorol wedi dweud bod yr hyfforddiant, y syniadau newydd a'r brwdfrydedd maen nhw'n ei gael ohono, a'r cysylltiadau maen nhw'n eu gwneud, yn hyd yn oed pwysicach na'r wobwr ariannol.

2020 GSK IMPACT Awards in partnership with The King's Fund

Dyddiad cau er mwyn ymgeisio: 23 Medi 2019.
Am fwy o wybodaeth, neu i wneud cais am Wobr EFFAITH GSK ewch i'r wefan

www.kingsfund.org.uk/gskimpactawards

Stori lwyddiant Grantiau dan arweiniad yr Ieuenctid - Pantomeim Gwernymynydd



Roedd Pwyllgor Ieuenctid Pantomeim Gwernymynydd yn llwyddiannus gyda'i gais am Grant dan arweiniad

yr Ieuenctid 2018/19 ar gyfer offer sain, wnaeth alluogi'r gwirfoddolwyr ifanc ymgymryd â chefnogaeth dechnegol ar gyfer eu sioeau yn 2019. Fe



wnaeth yr offer newydd helpu i'r bobl ifanc hyn yn eu harddegau ddod yn beirianwyr sain a golau, gyda chefnogaeth cyfarwyddwr ifanc, Cameron Williams, wnaeth hefyd ysgrifennu'r sioe eleni. Bu i'w sioe Eira Wen a'r Saith Corach yn 2019 werthu allan, a bu'r lle yn llawn bob nos gyda chanmoliaeth am eu gwaith.

Bydd y gwirfoddolwyr ifanc yn ôl yn ystod hanner tymor mis Chwefror 2020 gyda'u perfformiad o Sinderela i ddathlu 10 mlynedd. Dilynwch Grŵp Pantomeim Gwernymynydd ar Facebook am fwy o wybodaeth.

<https://en-gb.facebook.com/gwernymynydd.panto>

Grantiau dan arweiniad yr Ieuenctid

Mae grantiau o £500 a £1,000 ar gael i bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn prosiectau gwirfoddol dan arweiniad pobl ifanc. Mae'n rhaid defnyddio'r grant ar weithgaredd gwirfoddol mewn prosiect gaiff ei arwain gan bobl ifanc yn Sir y Fflint. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl sydd ynghlwm fod rhwng 14-25 oed. Gall y prosiectau redeg tan y 29ain o Chwefror 2020.

Rydym ni'n croesawu ceisiadau sy'n cefnogi'r meysydd blaenoriaeth hyn:

- Blynnyddoedd Cynnar (0-7 oed)
- Tai
- Gofal Cymdeithasol
- Iechyd Meddwl
- Sgiliau a Chyflogadwyedd
- Datgarboneiddio

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn neu eisiau gofyn am becyn cais, cysylltwch gyda Heather Hicks drwy e-bost: Heather.hicks@flvc.org.uk neu drwy ffonio **01352 754004**. Y dyddiad cau er mwyn ymgeisio ydy **Dydd Gwener 20 Medi 2019**.

Newyddion Cronfa Clwb Bowlio Bryn Gwalia



To newydd i dŷ'r clwb

Mae'r gwaith o gwblhau to tŷ clwb Sefydliad Clwb Bowlio Llaneurgain bellach wedi'i gwblhau, gyda diolch i grant o £2,500 gan Gronfa Clwb Bowlio Bryn Gwalia. Mae'r gronfa yn lleihau, ond bydd o leiaf un rownd arall o arian. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn Rownd 6 y gronfa ydy **Dydd Gwener 20fed o Fedi 2019**



Aelodau o Sefydliad Clwb Bowlio
Llaneurgain, Ymddiriedolwyr Clwb Bowlio
Bryn Gwalia a Swyddog Cyllid FLVC

In Kind Direct

Mae In Kind Direct, elusen wedi'i sylfaenu gan Ei Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru, wedi'i sefydlu er mwyn darparu nwyddau traul defnyddiadwy newydd i elusennau'r DU, sefydliadau nid-er-elw a mentrau cymdeithasol. Mae'r nwyddau yn amrywio o bethau ymolchi, dillad, teganau, nwyddau glanhau a nifer o eitemau eraill i'w defnyddio ar gyfer

- Rhoi i bobl rydych chi'n eu cefnogi am ddim
- Rhedeg eich prosiectau a gweithgareddau
- Glanhau a chynnal eich cyfleusterau

Gallwch chi gofrestru am ddim. Rydych chi'n talu ffi fach am eu gwasanaeth sy'n cyfrannu tuag at gostau rhedeg stordy, staff, pacio ac yn cynnwys dosbarthu.

I weld sut mae sefydliadau eraill wedi elwa, ewch i'r wefan:

<https://www.inkinddirect.org/>

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, cysylltwch gyda'r Tîm Elusennau ar

0300 30 20 200 neu

info@inkinddirect.org



ARIANNAU

Cist Gymunedol Chwaraeon Cymru

Mae Cist Cymunedol yn cynnig dyfarniadau grant o hyd at £ 1500 mewn unrhyw 12 mis tuag at gynyddu cyfranogiad a gwella safonau. Mae cyllid ar gael ar gyfer Clybiau Chwaraeon, Clybiau Ieuenctid Cymdeithas a Grwpiau Cymunedol.

Mae meini prawf ac arweiniad ar gael yn:

<http://sport.wales/funding-support/our-grants/community-chest.aspx>

Eisiau cymorth i godi arian?

Os oes arnoch chi angen cymorth i godi arian, yna ydych chi wedi ystyried edrych ar y dudalen hon ar Newyddion Digidol Elusennau lle mae rhestr o'r llefydd gorau ar gyfer nawdd i elusennau? Efallai byddai'n werth ichi gael golwg arni:

<https://www.charitydigitalnews.co.uk/2019/02/21/the-best-free-online-fundraising-platforms-for-charities/>

VOLFEST yn clodfori Gwirfoddoli yn Sir y Fflint mewn steil



Lleoliad Volfest – Digwyddiad Clodfori Gwirfoddoli Blynyddol FLVC eleni oedd y Ganolfan Gymunedol Afon Dyfrdwy yn Fflint, a bu'n rhan o ddatgliadau Wythnos Genedlaethol y Gwirfoddolwyr.

Bu i Uwch Siryf Clwyd, Stephanie Catherall, sydd wedi dewis Gwirfoddoli fel blaenoriaeth o ran ei gwaith, gyflwyno Tystysgrifau i 120 o unigolion o 14 mudiad. Bu iddi hefyd drafod cyfraniad anafsuradwy gwirfoddolwyr tuag at ein cymunedau.

Bu i ein gwesteiywyr yng Nghanolfan Gymunedol Afon Dyfrdwy ddarparu cinio bendigedig inni a bu i'r Parchedig Stephen Harmes roi gwybod i'r rheiny oedd yn bresennol am gyfleusterau'r ganolfan sydd ar gael i unrhyw fudiad eu llogi.

Bu adloniant, ac ychydig o ddisgleirdeb, gan yr



Art and Soul Tribe sydd â'r bwriad o ddatblygu cydlynad cymunedol ac iechyd meddwl gwydn gyda phrosiectau, digwyddiadau a sioeau llawr gwlad. Bu'r perfformwyr yn dawnsio gyda chylchau hwla a bu

perfformiad Bwrlésg arbennig a bu'r plu hyd yn oed yn cyd-fynd â lliwiau tîm FLVC!

Ymysg y mudiadau oedd yn bresennol ar y diwrnod oedd

ART & SOUL TRIBE

'Rydym yn griw o weithwyr creadigol sy'n rhannu'r un genhadaeth – newid cymdeithasol. Mae ein sioeau, digwyddiadau, ffilmiau a phrosiectau i gyd yn mynd i'r afael â bwlio, trosedd casineb, anoddefgarwch ac anfantais.'



LLYFRGELLOEDD A HAMDDEN AURA

Bu i'r gwirfoddolwyr gefnogi Tîm Datblygu Chwaraeon Aura, Canolfannau Chwaraeon Cymunedol, Hyfforddwy'r a Hyfforddwy'r Cynorthwyol mewn Ysgolion ac yn y gymuned, cefnogi ein swyddogion gyda gwyliau ar gyfer disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd.

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR – ysbytai lleol

Mae ein gwirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser bob wythnos i gefnogi ysbytai lleol. Maen nhw'n cynnig gwasanaeth cyfeillio lle maen nhw'n cynnig paned a sgwrsio gyda chleifion, ymwelwyr a staff.

RHIENI CYMUNEDOL SIR Y FFLINT

Mae ein gwirfoddolwyr yn cefnogi teuluoedd bregus yn eu cartrefi eu hunain. Heb y gwirfoddolwyr, ni fuasai gan y teuluoedd unrhyw un i'w helpu.

GWIRFODDOLWYR CEFNOGI FLVC

Mae Gwirfoddolwyr Cefnogi FLVC yn helpu gyda'n prosiectau Gwirfoddoli gyda Chefnogaeth a bu iddyn nhw hefyd helpu i gynnig cefnogaeth derbynfa yn y Gorlan. Maen nhw'n gofalu bod yr unigolion yn teimlo'n gartrefol ac yn eu calonogi a'u cefnogi.



HOME-START SIR Y FFLINT

Mae gwirfoddolwyr Home-Start yn cynnig cefnogaeth cyfoedion i deuluoedd yn y cartref teuluol ac mewn sesiynau cefnogi i grwpiau. Maen nhw'n cynorthwyo rhieni i ymdopi'n well gyda heriau bywyd a chynnig y cychwyn cyntaf gorau posib mewn bywyd i blant.

CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn hynod lwcus o gydweithio gyda thîm ymroddgar o wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i helpu'r dref. Mae gwirfoddolwyr yn rhan annatod o'r digwyddiadau y mae'r Cyngor Tref yn eu trefnu.

MIND GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Mae gwirfoddolwyr Mind Gogledd Ddwyrain Cymru wrthlaw i gyfarch y cyhoedd ac maen nhw'n cynorthwyo gyda dyletswyddau gweinyddol ac yn cynnig cefnogaeth wedi'i deilwra yn ystod ein sesiynau llesiant i grwpiau.

SUPERKIDS GOGLEDD CYMRU

Mae Superkids yn dibynnu ar wirfoddolwyr yn gyfan gwbl i helpu gyda chynnig anrhegion Nadolig a theithiau i deuluoedd mewn angen. At hyn, cafodd 3 myfyrwr o Brifysgol Caer fu'n gwirfoddoli eu clodfori am helpu gydag amrywiaeth o dasgau fel dod o hyd i ffeithiau neu drefnu bagiau o eitemau ail law wedi'u cyfrannu.

ONLINE-WATCH LINK CYMRU

'Mae ein gwirfoddolwyr, yn ein cymunedau a'r rheiny sy'n helpu gyda'n gwasanaethau o ddydd i ddydd wrth wraidd 'OWL Cymru'. Rydym yn teimlo'n hynod freintiedig o fanteisio ar gefnogaeth cymaint o bobl'.

CEFNOGAETH I DDIODDEFWYR

Mae ein gwirfoddolwyr yn cynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i unrhyw un sydd wedi dioddef trosedd yn eu herbyn. Maen nhw'n rhoi o'u hamser ac yn cynorthwyo'r dioddefwyr i fynd ati i ail-ddatblygu eu hyder a dod i delerau efo'r profiadau iddyn nhw a'u teuluoedd.

TANDEM CYMRU

Mae ein gwirfoddolwyr yn cynorthwyo eu cyfoedion ac maen nhw'n hynod werthfawr ar deithiau a thirpiau. Maen nhw hefyd yn helpu gyda digwyddiadau cymunedol yn yr Wyddgrug.

WILD GROUND

Mae ein gwirfoddolwyr yn mynd ati i gynnig help llaw gyda chadwraeth yn ein gwarchodfeydd natur gan helpu i gynnal a chadw'r coetir, glaswelltiroedd a phyllau a chreu cynefinoedd. Mae'r gwirfoddolwyr yn cynorthwyo gyda chynnal digwyddiadau, arolygon, codi arian, ymweliadau ysgol, ffotograffiaeth, cyfieithiadau Cymraeg ac ymddwyn fel ymddiriedolwyr.

VISION SUPPORT

Mae ein gwirfoddolwyr yn helpu i hwyluso ein grwpiau cymdeithasol ac yn cynorthwyo gyda chynnal ein canolfannau cyfleusterau. Maen nhw'n helpu i drefnu digwyddiadau codi arian a theithiau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, ynghyd â chynnig gwybodaeth a chefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth.



Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch chi ynghylch unrhyw un o'r mudiadau uchod, neu os hoffech chi i aelod o staff FLVC alw i gwrdd â'ch gwirfoddolwyr, mae croeso ichi gysylltu gyda ni.

Côd Llywodraethu i Elusennau'r DU

Mae Côd Llywodraethu i Elusennau'r DU yn offeryn defnyddiol i helpu elusennau a'u hymddiriedolwyr ddatblygu safonau uchel o lywodraethu drwy osod egwyddorion ac ymarferion awgrymedig. Os hoffech chi asesu trefn lywodraethu eich elusen yn erbyn y Côd, fe allwch chi ddefnyddio'r templed asesu syml hwn sydd am ddim ac ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

[https://www.wcva.org.uk/advice-guidance/advice-guidance-latest/2019/02/cgc-tool-\(1\)](https://www.wcva.org.uk/advice-guidance/advice-guidance-latest/2019/02/cgc-tool-(1))

Gofod3

Mae Gofod3 yn ddigwyddiad blynyddol gaiff ei drefnu gan WCVA, mewn cydweithrediad â'r trydydd sector gan gynnwys FLVC. Yn wahanol i unrhyw ddigwyddiad arall yng Nghymru, ein lle ni ydy hwn i ddysgu oddi wrth ein gilydd, i ysbrydoli a rhoi cymhellant i'n gilydd.

Mae cyflwyniad diweddaraf Gofod 3 bellach ar

gael ar wefan WCVA. Dyma rai penawdau efallai fyddai o ddiddordeb i bobl sydd ynghlwm â threfn lywodraethu sefydliadau:

- Osgoi Dadleuon
- Trosglwyddo Asedau Cymunedol
- Sut mae gwella eich trefn lywodraethu mewn 12 cam
- Adrodd ar ddigwyddiadau difrifol a diweddariad ar gyfraith elusennau
- Diogelu mewn elusennau

<https://www.gofod3.cymru/resources>

Y Comisiwn Elusennau yn amlinellu dull rheoleiddio

Wrth siarad yng nghyfarfod cyhoeddus blynyddol y Comisiwn Elusennau ym Manceinion ar y 5ed o Fawrth, bu i Brif Weithredwr y Comisiwn gyfleu neges i'r sector ynglŷn â beth i'w ddisgwyl gan ei reoleiddiwr dros y bum mlynedd nesaf.

Bu i Brif Weithredwr y Comisiwn, Helen Stephenson, ei gwneud yn glir bod capasiti'r rheoleiddiwr dal yn y fantol ar ôl profi dau ergyd sef toriadau mewn cyllid a chynnydd mewn galw am wasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn derbyn 260 o e-byst neu alwadau ffôn ar gyfartaledd gan gwsmeriaid bob dydd.

Fodd bynnag, mae cynlluniau i fynd i'r afael â hyn trwy ymgynghoriad ar a ddylai'r Comisiwn godi ffi rheoleiddio ar elusennau wedi'u hoedi, gan fod y llywodraeth wedi ymgolli mewn materion Brexit. Y llynedd, bu i'r llywodraeth roi £5m ychwanegol y flwyddyn i'r Comisiwn, nes bod

ymgynghoriad ar godi ffi ar elusennau yn gallu mynd rhagddi, sydd wedi galluogi'r rheoleiddiwr i recriwtio staff ychwanegol. Gwybodaeth bellach:

<https://www.wcva.org.uk/advice-guidance/advice-guidance-latest/2019/03/commission-update>

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi diweddaru ei bamffledi cyngor.

- Ymddiriedolwyr Elusennau
- Gwiriadau DBS: Gweithio gydag oedolion yn y sector elusennau
- Gwiriadau DBS: Gweithio gyda phlant yn y sector elusennau
- Cyfeirio gwaharddiadau: Eich canllaw ar sut a phryd i wneud hyn
- Gweithgareddau wedi'u rheoleiddio gydag oedolion yng Nghymru
- Gweithgareddau wedi'u rheoleiddio gyda phlant yng Nghymru

Mae nifer o bamffledi eraill sy'n edrych ar rolau penodol.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn neu bryderon ynglŷn â diogelwch yn eich sefydliad, mae croeso ichi gysylltu gyda'n gwasanaeth Diogelu am ddim drwy anfon e-bost at safeguarding@wcva.org.uk neu phonio

0300 111 0124 (dewis 6)

<https://www.wcva.org.uk/advice-guidance/advice-guidance-latest/2019/05/dbs-leaflets>

Diweddariadau ynglŷn â deddfwriaethau a chanllawiau

Canllaw Acas ar wahaniaethu oherwydd oed

Mae pobl sydd dros 50 oed bellach yn cyfrif bron i un traean o weithlu'r DU ac yn ôl ymchwil, gall gweithwyr ifanc a gweithwyr hŷn brofi gwahaniaethu oherwydd eu hoed. Er mwyn helpu i osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon oherwydd oed yn y gweithlu, mae Acas wedi cyhoeddi canllaw newydd.

<https://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=6653>

Diogelwch eich elusen rhag twyll a throedd ar-lein

According to the Office for National Statistics, Fraud is the Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Twyll ydy'r troedd gaiff ei adrodd arno fwyaf yn y DU. Mae person yn y DU 10 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef twyll na lladrata a tydy'r sector elusennau ddim gwahanol.

Mae twyll yn gosod perygl difrifol i gronfeydd gwerthfawr a data sensitif, a gall niweidio enw da elusennau, gan effeithio ar hyder y cyhoedd a'u hymddiriedaeth yn y sector yn ei gyfanrwydd.

Er mwyn eich helpu i frwydro yn erbyn y bygythiad hwn ac i ddarganfod adnoddau defnyddiol i helpu gyda'ch ymdrechion, ewch i wefan y Comisiwn Elusennau ar:

<https://www.gov.uk/guidance/protect-your-charity-from-fraud>